**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD NOS FAWRTH 19 MEDI 2023 AM 19:00 DRWY ZOOM**

**PRESENNOL**: Y CYNHORWYR MEIRWEN LLOYD CADEIRYDD, AVRIL JONES IS GADEIRYDD, ALAN PRITCHARD, GWYNEDD WILLIAMS, HEFIN JONES, ANN LAWTON, RHYS PARRY, BECA BROWN, BERWYN PARRY JONES, RICHARD Robinson

**YMDDIHEURIADAU:** CYNGHORYDD PHILIP ROBERTS, CLERC MEIRION JONES (Y DDAU YN CYNRYCHIOLI'R CYNGOR YN SEREMONI WOBRWYO MYNWENT Y FLWYDDYN)

**AELODAU O CYHOEDD:** NEB

**1197 I DDERBYN CROESO GAN Y CADEIRYDD**

Estynnwyd croesi cynnes I bawb i'r cyfarfod gan y CADEIRYDD a diolchodd am bresenoldeb yr aelodau. Diolch hefyd I Berwyn am drefnu y Zoom ac i'r Cynghorydd Avril Jones am gofnodi

**1198 DERBYN YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1199 DATGAN BUDDUANT PERSONOL**

Rhain i'w datgan fel yn briodol.

**1200 I GADARNHAU COFNODION CYFARFOD 15 AWST 2023**

Cadarnhawyd y cofnodion ac fe'i Arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1201 UNRHYW FATER YN CODI O GOFNODION CYFARFOD 15 AWST. 2023**

Hefin yn holi os fuasai y Cyngor yn rhoi datganiad i'r wasg fod y Cyngor yn cefnogi Cymdeithas yr iaith. Cadeirydd am ofyn i'r Clerc lle ydan ni fel Cyngor yn sefyll ar hyn.

**1202 DERBYN ADRODDIAD GAN GADEIRYDD PWYLLGOR Y FYNWENT**

Y Cadeirydd ddim yn bresennol wedi mynd gyda'r Clerc i seremoni wobrwyo Mynwent y Flwyddyn ar ran y cyngor, braf oedd cael y neges fod y fynwent wedi cael wobr arian, llongyfarch y Cadeirydd ar pwyllgor am waith caled Pwyllgor y Fynwent. Adroddodd Is Gadeirydd pwyllgor fynwent i'r Cyngor.

Hefin yn gofyn i'r Cynghorydd Richard Robinson am gael bin brown ar gyfer gwastraff organig i'r fynwent a faint fuasai y gost ac hefyd ein bod yn nodi mewn llythrennau bras i pa fin dylid rhoi gwastraff. Cynghorydd Richard Robinson yn mynd i edrych i fewn hyn. Hefyd sut i gael y trigolion sydd yn mynychu y fynwent, beidio defnyddion blodau plastig, y cyngor yn mynd i edrych fewn i lle sydd yn gwerthu blodau fydd yn addas i'w roi yn y fynwent sydd ddim yn blastig a gadel ir cyhoedd wybod.

Dwedodd Meirwen bod cwyn wedi dod i law ar ôl toriad gwair ddiwethaf yn y fynwent, angen trefnu cyfarfod hefo'r contractwr mor fuan a sydd bosib i fynd drwy y tendr ynglŷn a beth sydd yn cael ei ddefnyddio i chwythu y gwair oddi ar y cerrig.

Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones wedi bod yn gweld y cwt yn y fynwent dim RACC cadarnhawyd mai does dim yn bresennol

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1203. DERBYN ADRODDIAD GAN GADEIRYDD PWYLLGOR HAMDDEN**

Dim pwyllgor wedi bod hyd yma angen trefnu yn fuan y Cadeirydd Avril Jones i gael dyddiadau i gael pwyllgor yn y ddwy wythnos nesaf.

Disgwyl wrth Menter Fachwen i gysylltu ynglŷn ar goeden coffa yn parc sglefrio yn Cwm y Glo.

Y placiau fyny ar y ddwy gadair eistedd er cof am y ddau cynghorwyr.

Wedi cael rhestr o lefydd i blannu cennin pedr gan Cynghorydd Meirwen Lloyd angen eu anfon i Menter. Y Cynghorydd Avril Jones am wneud hyn wythnos yma.

Asesiad risg wedi cael ei gario allan ar y meysydd chware y Cyngor. Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd, Gwynedd Williams , Avril Jones ynghyd a'r contractwr trwsio wedi bod o amgylch ar y 4ydd o Fedi. Wedi trafod a gwneud rhestr o beth sydd angen i wneud.

GWAITH BRYS Ffens Newydd yn Pwll Moelyn wedi gofyn am bris gan Brunswick Caernarfon angen ei gwneud ar frys.

Cae Nant y Glyn ffens o amgylch y cae wedi disgyn lawr am fod y gwair ag yn y blaen wedi tyfu drosti mae weiren bigog yn cael ei cuddio.

Tu ôl i'r gôl bellaf dibyn yn mynd i lawr a hefyd gwastraff gwair yn cael ei roi yno yn gwneud y lle yn berig angen codi ffens a gwneud lle diogel i nôl y bêl.

**PENDERFYNNWYD**: Derbyn a Diolch am yr adroddiad

**1204 ADRODDDIAD GAN Y CYNGHORYDD BECA BROWN AM MIS AWST.**

Ward

Bum mewn cyfarfod efo Tyddyn teg er mwyn creu llwybr diogel o Ysgol Brynrefail i Tyddyn Teg ble mae gan blant yr ysgol randir. Maent ar hyn o bryd yn gorfod cael bws mini i'w cludo yno sydd yn beth gwirion o feddwl y gallent gerdded yno, a fyddai'n brafiach ac yn fwy amgylcheddol gyfeillgar.

Cafwyd sesiwn Camau Cerdd llwyddiannus iawn yn y Sefydliad a chynlluniau ar y gweill i wneud rhagor o sesiynau tebyg ac o bosib i gyd-weithio ar sesiynau cerdd i'r henoed.

Bum mewn cyfarfod efo'r swyddog grantiau yn y cyngor er mwyn gweld beth yw'r posibiliadau o ran creu hwb yn Llanrug, yn debyg i'r hyn sydd ym Methel, ac i weld pa grantiau eraill gallai fod o ddefnydd yn y pentref.

Oherwydd ei fod yn amharu ar y plant lleiaf yn tu blaen yr ysgol mae polyn bws sydd er yr ysgol gynradd yn cael ei symud.

Mae dau olau ar ffordd Crawiau wedi eu tynnu a mae'r stryd bellach yn dywyll i gerddwyr yn y nos, ond mae'r gwaith wedi ei raglennu i'w trwsio fis nesa.

Mi fydd y gwrych wrth fynedfa stad Nant y Glyn ger y lon bost yn cael ei dorri.
Cyngor.

Mae adroddiad Estyn cyhoeddir yr adran addysg yn cael ei gyhoeddi dydd iau, a holl arlwy y gwasanaeth addysg o dan y chwyddwydr.

Bu archwiliadau RAAC yn ein hadeiladau gyda blaenoriaeth wedi ei roi i'n hygsgolion, ond hyd yma nid oes pryder mawr wedi codi.

Bum mewn lansiad llyfr ar dlodi plant a sut mae tlodi yn creu rhwystrau rhwng plant a'u haddysg.

Mae criw o bobol leol weid gweithio ar ddatrysiadau a fedrai weithio yn sirol er mwyn cefnogi plant o gefndiroedd difreintiedig.

Bu sesiwn briffio gan y comisiynydd heddlu a throsedd ar gyfer cynghorwyr yn trafod diogelwch mewn cymunedau a diogelwch cynghorwyr, ac roedd cyfle i holi cwestiynau.

Mae nifer o gyfarfodydd am ddyfodol y gwasanaeth tan wedi bod wrth gwrs ac fe basiwyd ymateb y cabinet heddiw sef i wrthod cynnig 3, yn unol a chyngor y prif swyddog tan. Nodwyd hefyd bod yr undebau wedi cynnig dau opsiwn arall hefyd i gael eu hystyried ar wahân i'r ymgynghoriad a bod gennym ddiddordeb clywed mwy am yr opsiynau rheiny.

Roedd cynllun gweithio'n hybrid o flaen y cabinet hefyd a bydd y gweithlu yn dod nol am o leia 2 diwrnod yr wythnos er mwyn trio cael balans rhwng gweithio adref a hefyd cynnal gwasanaeth mwy tebyg i'r hyn a fu cyn Cofid.

Roedd y Pwyllgor craffu addysg ac economi yn edrych ar sawl maes ond fe fu trafodaeth hir am absenoldebau a gwaharddiadau, sydd wedi codi ers Cofid. Mae hyn yn broblem ymhobman ond mae'n destun pryder mawr ac mae darn o waith wedi ei gomisiynu i weld beth fedrwn ni wneud yn sirol er mwyn cyfarch y broblem.

Prosiect 15 – roedd y cynllun yma'n brysur iawn yn y steddfod, a cyn-ddisgybl Brynrefail yn un o'r rhai oedd yn gweithio efo ni dros yr haf yn darparu cynnwys difyr a chyfoes drwy gyfrwng y Gymraeg i'r cynllun yma am leisiau ysbrydoledig Cymraeg. Mi fydd Brynrefail yn cyfrannu i'r cynllun cyn hir, gobeithio.

**Penderfynnwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1205 Pawb yn gytuno i awdurdodi'r clerc wneud cais am grant tuag at ffi aelodaeth Fareshare.**

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

C/23/0699/23/DT dim gwrthwynebiad

C/23/0633/23/DT dim gwrthwynebiad

C/23/0610/23/DT dim gwrthwynebiad

C/23/0620/23/DT ddim wedi cael ei drafod penderfyniad gan Cyngor Gwynedd wedi cael ei wneud cyn cyfarfod y Cyngor Cymuned

Daeth y cyfarfod I ben am 20:20

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 17 Hydref 2023